**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**26 Mai 2023**

09:30 -10:1300

Lleoliad: Ar-lein

---

**Yn bresennol**

Peter Strachan (Cadeirydd), James Price, Heather Clash, Marie Daly, ac Alexia Course.

Hefyd yn bresennol: Ross Whiting (Ysg).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Anfonodd Jan Chaudhry Van der Velde ei ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiannau**

Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 28 Ebrill 2023 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf.

**2. Sylw i ddiogelwch**

Nododd y Bwrdd y wybodaeth am ddiogelwch yn y papurau ynghylch Canolfan Rheoli Gwybodaeth Llinellau Craidd y Cymoedd. Ystyriodd yr aelodau y ffin rhwng gweithgareddau a chyfrifoldebau o safbwynt rheoli diogelwch, cynllunio senarios diogelwch a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ymarferion.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**

Nododd y Bwrdd gyflwyniad ar wella gorsafoedd yn y papurau cyfarfod. Cytunodd yr aelodau y dylid cynnal cyfarfod Tîm Arwain Gweithredol yn Nhŷ San Padrig yn y dyfodol gydag ymweliad safle â Gorsaf Caerdydd Canolog i weld ac ystyried y cynlluniau diweddaraf **[Cam Gweithredu – Ysg]**.

**4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau (Cyfnod: 01 (23/24) 01/04/2023 – 29/04/2023)**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad diweddaru ar ran y Prif Swyddog Gweithrediadau fel y'i cynhwysir ym mhapurau'r cyfarfod a oedd yn nodi, fel gyda chyfnodau blaenorol, mai cerbydau oedd y mater pwysicaf o hyd yng nghyswllt y rhaglen drawsnewid. Hysbyswyd y Bwrdd bod y sefyllfa o ran criwiau trenau yn gryf.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**5a. Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd yr adroddiad sicrhau diogelwch. Tynnwyd sylw'r aelodau at y risgiau sy'n gysylltiedig ag ailagor llinell Aberdâr a Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd, defnyddio camerâu corff, yr adolygiad diogelwch, dysgu o ddigwyddiadau thermol CAF 180 mewn mannau eraill, [redacted]

[redacted]

Hefyd cafodd yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am yr adborth drafft ar ddigwyddiadau i gwsmeriaid RSSB, a nodwyd bod yr adroddiad llawn yn cael ei adolygu.

**5b. Adroddiad risg rheilffyrdd**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad a chytunodd y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal i benderfynu sut i sicrhau bod Bwrdd TrC a Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn cael golwg ar adroddiadau risg ac yn cyfrannu at yr adroddiadau hynny, yn ogystal ag unrhyw broses uwchgyfeirio angenrheidiol **[Cam Gweithredu – JP/LP]**.

**5c. Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad dangosydd perfformiad allweddol.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**6. Diweddariad masnachol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

[redacted]

Cytunodd y Bwrdd y byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin Bwrdd Rheilffyrdd TrC, sy'n rhoi manylion cynllun ar gyfer sicrhau bod tocynnau'n cael eu sganio i ddiogelu refeniw, a sut bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y targed o 80% yn cael ei gyrraedd cyn gynted â phosibl **[Cam Gweithredu – AC]**.

**7. Adolygiad ariannol**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad cryno ar y papurau yn y pecyn cyfarfod, gan gynnwys y prif heriau i fod yn ymwybodol ohonynt a'r gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau cynllunio drwy gydol y flwyddyn ar wariant cyfalaf, effaith bosibl gweithredu diwydiannol sydd ar y gweill, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf mewn cysylltiad â'r llythyr cyllido. Cytunwyd y byddai'r gyllideb hon yn dod i Fwrdd Rheilffyrdd TrC cyn ei chyflwyno, ond efallai y bydd angen gwneud penderfyniad drwy ohebiaeth os bydd amserlenni'n gofyn am hyn.

Ystyriodd a nododd y Bwrdd dystysgrif archwilio Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd ar gyfer Rheilffyrdd TrC, a bydd yn cael ei llofnodi gan Heather Clash.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**8. Perfformiad Network Rail**

*Ymunodd Nick Millington â'r cyfarfod.*

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar berfformiad Network Rail fel y'i cynhwysir ym mhapurau'r cyfarfod. Croesawodd yr aelodau'r cyflwyniad a'r dull gweithredu, gan gynnwys yr angen i ddatblygu cyfle ar gyfer herio'r naill barti a'r llall rhwng Rheilffyrdd TrC a Network Rail.

Cytunodd y Bwrdd y dylai Nick Millington ei wneud yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd i wella, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod a datblygu'r hyn y gellid gweithredu arno **[Cam Gweithredu – JP, JCVDV, NM]**, gwahoddiadau pellach i Nick Millington fynychu cyfarfodydd Bwrdd Rheilffyrdd TrC a gweithgareddau ar y cyd fel mesurau ac arolygon cwsmeriaid.

Ystyriwyd y wybodaeth darged wedi'i chynnwys yn y pecynnau ar gyfer TrC a Network Rail, a sut gellid annog partneriaid eraill i wneud yr un fath, newidiadau staff a allai gael effaith gadarnhaol ar foderneiddio gwaith cynnal a chadw, a newidiadau CP7 y tu hwnt i reolaeth leol a allai effeithio ar berfformiad.

*Gadawodd Nick Millington, James Price ac Alexia Course y cyfarfod.*
Nodwyd nad oedd cworwm gan y Bwrdd mwyach, ond nad oedd angen penderfynu ar unrhyw eitemau eraill.

[redacted]

**10. Unrhyw Fater Arall**
Dim eitemau pellach.

Daeth y cyfarfod i ben a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.